

At: Aelodau Cabinet

Dyddiad: 21 Mai 2021

Deialu 01824712568

Union:

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CABINET** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 25 MAI 2021 TRWY CYFRWNG FIDEO** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

Rhif Eitem
Agenda

3 MATERION BRYG (Tudalennau 3 - 6)

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

CYLLID CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH DE CLWYD

I ystyried adroddiad gan yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet ddirprwyo awdurdod at ddibenion cytuno i gais gael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer Etholaeth De Clwyd.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd

AELODAETH

Cynghorwyr

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon

Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	25 Mai 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cyng. Hugh Evans/Graham Boase
Awdur yr adroddiad	Emlyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad
Teitl	Cyllid Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU – Etholaeth De Clwyd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chronfa Codi'r Gwastad (Levelling Up), sef cyllid 'adfywio' gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Diben y gronfa yw buddsoddi mewn isadeiledd sy'n gwella bywyd pob dydd, gan gynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, gwella cludiant lleol a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen gwneud penderfyniad i roi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Arweinydd, i gytuno ar gais Codi'r Gwastad i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar gyfer etholaeth De Clwyd. Bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl trafod gydag Aelodau Lleol Dyffryn Dyfrdwy.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a'r Arweinydd, i gytuno ar gais i'w

gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar gyfer etholaeth De Clwyd. Bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl trafod gydag Aelodau Lleol Dyffryn Dyfrdwy.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Bydd cyllid Codi'r Gwastad yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol. Mae ardaloedd yn y DU wedi'u rhoi mewn categorïau (1, 2 neu 3), gyda chategori 1 yn cynrychioli llefydd gyda'r lefelau uchaf o angen. Mae Sir Ddinbych yng nghategori 1.
- 4.2 Mae nifer y ceisiadau y mae modd i awdurdod lleol eu cyflwyno yn dibynnu ar nifer yr Aelodau Seneddol yn yr ardal honno h.y. mae'r cyllid ar gyfer ardal etholaeth Aelodau Seneddol nid ardal awdurdod lleol. Os yw'r etholaeth yn gorchuddio mwy nag un ardal awdurdod lleol, yna mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynghylch pa awdurdod fydd yn arwain. Gall pob ardal etholaeth wneud cais am hyd at £20 miliwn o gyllid cyfalaf. Gall y ceisiadau fod yn ymwneud â phrosiect penodol neu gall fod yn gais am becyn o brosiectau "cysylltiedig", ond mae'n rhaid iddyn nhw fod yn gydlynol.
- 4.3 Dylid ymgynghori gydag Aelodau Seneddol, ac fe ddylen nhw gefnogi'r ceisiadau. Bydd yr arian a dderbynnir gan bob ardal yn cael ei bennu ar sail gystadleuol i sicrhau gwerth am arian.
- 4.4 Bydd £125,000 o gyllid adnoddau refeniw yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol i'w cefnogi i ddatblygu'r ceisiadau.
- 4.5 Mae hon yn gronfa untro h.y. un cais gan bob etholaeth, a bydd yn rhaid cwblhau prosiectau'r ceisiadau llwyddiannus erbyn mis Mawrth 2024. Y dyddiad cau cychwynnol ar gyfer ceisiadau yw 18 Mehefin 2021, ond mae'n ymddangos y bydd dyddiadau cau eraill yn cael eu cyhoeddi gyda hyn, ond ni fydd newid i'r dyddiad cwblhau (Mawrth 2024).
- 4.6 Mae tair etholaeth yn Sir Ddinbych, sef:

Dyffryn Clwyd (James Davies AS)

Gorllewin Clwyd (David Jones AS)

De Clwyd South (Simon Baynes AS)

Mae dwy etholaeth yn croesi'r ffin. O ran De Clwyd bydd arnom ni angen gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW), sydd ag ardal fwyaf yr etholaeth.

Etholaeth De Clwyd

- 4.7 Mae'r Arweinydd a'r Uwch Swyddogion wedi cwrdd yn anffurfiol gyda'r tri Aelod Seneddol, gyda'i gilydd ac yn unigol.

- 4.8 Mae uwch swyddogion CSDd a CBSW wedi cwrdd ar sawl achlysur i ddatblygu cais ar y cyd. Mae CBSW yn awyddus iawn i gyflwyno cais am oddeutu £20 miliwn erbyn 18 Mehefin 2021. Mae cwrdd â'r terfyn amser yn mynd i fod yn dasg heriol iawn ond rydym ni'n ffyddiog y gallwn ni wneud hynny.
- 4.9 Rydym ni wedi cwrdd ag amryw o swyddogion o wasanaethau amrywiol CSDd i nodi prosiectau posibl cymwys yn ardal Llangollen a Chorwen. Rydym ni hefyd wedi cwrdd ag aelodau lleol a Chyngor Tref Llangollen. Mae gan Aelod Seneddol De Clwyd (Simon Baynes AS) weledigaeth strategol glir ar gyfer yr hyn sydd arno ef eisiau, ac mae CBSW yn rhannu'r weledigaeth honno.
- 4.10 O'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma, rydym ni'n hyderus bod gennym ni brosiectau sy'n cyd-fynd yn strategol â'r weledigaeth ar gyfer y cais ar y cyd. Mae llawer o'r prosiectau wedi'u datblygu'n dda ac aelodau lleol a chymunedau eisoes wedi bod yn ymwneud â nhw, ac rydym ni'n hyderus ein bod ni'n gallu cyflwyno cais datblygedig mewn partneriaeth â CBSW.

Oherwydd y terfyn amser heriol, rydym ni'n gofyn bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, y Swyddog Adran 151 a'r Arweinydd, i gymeradwyo'r cais Codi'r Gwastad i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU ar gyfer etholaeth De Clwyd. Bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl ymgysylltu ag Aelodau Lleol Dyffryn Dyfrdwy. Os yw Llywodraeth y DU yn cymeradwyo'r cais, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Mae gennym ni fwy o amser i baratoi ceisiadau ar gyfer etholaethau Gorllewin Clwyd a Dyffryn Clwyd, a fydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn dyddiad cau hwyrach, gan gadw at ein prosesau cymeradwyo corfforaethol/Aelodau arferol yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Bydd y penderfyniad hwn yn cyfrannu at lawer o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, yn ogystal â strategaethau corfforaethol eraill.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid adnoddau refeniw i helpu cynghorau ddatblygu ceisiadau a phrosiectau. Os caiff y ceisiadau eu cymeradwyo, efallai y bydd angen rhagor o gyllid adnoddau refeniw i barhau i ddatblygu a gweithredu'r prosiectau a gymeradwyir.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Bydd aseiad o'r effaith ar les yn cael ei gyflwyno gyda'r cais.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol yr Economi, gwasanaethau amrywiol CSDd, aelodau lleol, CBSW a Simon Baynes AS.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hon yn sefyllfa anarferol gyda therfynau amser tynn. Gall methu ag ymgysylltu â Chais Etholaeth De Clwyd arwain at golli buddsoddiad yn ein cymunedau a rhoi enw drwg i'r Cyngor. Mae'r cynnig yn yr achos hwn yn cael ei gefnogi. Fel y nodir yn adran 4 mae'n bwysig bod ceisiadau etholaethau Gorllewin Clwyd a Dyffryn Clwyd, a fydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU yn ddiweddarach, yn dilyn ein prosesau cymeradwyo cyfalaf arferol, yn cynnwys cyflwyno ceisiadau i'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn gyntaf. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r Grŵp Buddsoddi Strategol er mwyn iddyn nhw fod yn ymwybodol o'r sefyllfa.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r risgiau yn gyfyngedig ac wedi'u rheoli. Bydd proses benderfynu amgen a chadarn yn ei lle i gymeradwyo'r cais, yn cynnwys cytundeb uwch swyddogion allweddol a'r Arweinydd.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972
a2 Deddf Llywodraeth Ledol 2000